| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **11 Ionawr 2024** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans - Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adolygiad o dan drefn 'galw i mewn' Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 19eg Rhagfyr 2023, ynghylch 'Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 5 cynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhybudd (ynghlwm yn Atodiad A) yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 19eg Rhagfyr 2023, ynglŷn â 'Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad'.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

3.1 wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, yn penderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ymwneud â'r 'Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad', a wnaed ar 19eg Rhagfyr 2023, yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach; ac

3.2 os yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, yn nodi'n eglur y rhesymau pam y mae'n gofyn am adolygiad ac yn llunio argymhelliad(ion) yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 19eg Rhagfyr 2023, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad ar y 'Cynnig Arbedion Llyfrgelloedd/Siopau Un Alwad' (mae gopi o'r adroddiad copi ynghlwm yn Atodiad B).

4.2 Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynodd y Cabinet ei fod yn:

*"(a) nodi'r adroddiad ac yn cymeradwyo'r cynnig i leihau oriau agor Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad o oddeutu 40%, ynghyd ag arbedion cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, i roi arbediad disgwyliedig o £360,000, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau."*

4.3 Mae trefn galw i mewn y Cyngor yn diffinio proses i Graffu ddefnyddio ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, ac i ofyn i'r sawl a gymerodd y penderfyniad i ailystyried y penderfyniad a wnaed, cyn ei weithredu

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 21ain Rhagfyr 2023. Mae'r drefn 'galw i mewn' yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael 5 diwrnod i gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn'. Bu i'r Cynghorydd Hugh Irving gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 29ain Rhagfyr 2023. Cefnogwyd y cais hwn o fewn y terfyn amser a ganiateir (trwy negeseuon e-bost unigol) gan bedwar cynghorydd arall nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, sef y Cynghorwyr Terry Mendies, James Elson, Justine Evans a Brian Jones.

4.5 Gwelir isod, ac yn Atodiad A, y rhesymau nodir dros 'alw'r penderfyniad i mewn':

"Mae'r rhesymau dros graffu pellach fel a ganlyn:

(i) Mae’r penderfyniad i leihau oriau agor llyfrgelloedd 40% yn amhriodol gan y bydd y gostyngiadau yn atal gwasanaeth sy’n perfformio’n dda i gynnal ei safonau ac yn effeithio ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor. Nid yw'r effaith hon wedi'i hegluro eto.

(ii) Mae siopau un alwad sydd wedi'u lleoli mewn llyfrgelloedd yn darparu cefnogaeth sylweddol i'r gymuned yn enwedig i drigolion llai abl, na fyddant yn cael cymaint o gefnogaeth bellach. Bydd mynediad y cyhoedd at dechnoleg TG yn cael ei leihau a bydd cyfleoedd i drigolion i gael mynediad i amgylchedd cynnes at ddibenion cymdeithasol yn lleihau.

(iii) Nid yw Costau Diswyddo Posibl ac effaith colli staff profiadol sydd wedi'u hyfforddi'n llawn wedi'u cyfrifo'n llawn eto na'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer arbedion corfforaethol. Nid yw manylion llawn yr arbedion a ragwelir wedi'u darparu i aelodau eto.

(iv) Nid yw Cynghorau tref/dinas Rhuddlan a Llanelwy wedi datgan eto a fyddant yn parhau â'u cefnogaeth ariannol i'w llyfrgelloedd lleol o ganlyniad i’r gostyngiad yn y gwasanaeth a gynigir. Mae angen i'r ffigurau hyn fod yn hysbys a chael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

(v) Nid yw sefydliadau allanol sy'n darparu gwasanaethau o adeiladau’r llyfrgelloedd wedi datgan eto a fyddant yn parhau i wneud hynny, o ganlyniad gall hyn gael effaith ar les cymunedol. Nid yw’r colledion ariannol o sefydliadau masnachol, megis y banciau, fydd yn deillio trwy iddynt golli mynediad i gyfleusterau llyfrgell wedi’u cyfrifo eto ac nid yw eu colled i’r gymuned wedi’i ystyried.”

4.6 Mae trefn ‘galw i mewn’ y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniadau i Mewn oni bai bod gan bwyllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw. Mae’r drefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw’r sawl sy’n gwneud y penderfyniad a Chadeirydd y pwyllgor craffu yn cytuno i estyniad. Gan nad oedd cyfarfod o unrhyw un o Bwyllgorau Craffu’r Cyngor wedi’u hamserlennu o fewn y cyfnod amser penodedig cytunwyd ar estyniad i’r amserlen rhwng y sawl oedd wedi gwneud y penderfyniad a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, diben hyn oedd hwyluso cynnull Cyfarfod Arbennig er mwyn craffu ar y penderfyniad yn unol â’r cais i’w alw i mewn.

4.7 O ran gwybodaeth cefndirol i’r eitem hon mae modd gwylio’r drafodaeth gafwyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 19eg Rhagfyr 2023 ar wefan y Cyngor.

4.8 Yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet ar sail y rhesymau a nodwyd ar gyfer galw’r penderfyniad i mewn i graffu arno, ynghyd â’r holl sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, bydd yn ofynnol i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau benderfynu a ddylid cyfeirio’r penderfyniad yn ôl i’r Cabinet a’i peidio. Os yw o’r farn bod y penderfyniad yn haeddu cael ei gyfeirio’n ôl at y Cabinet mae angen i’r Pwyllgor ddatgan ei resymau dros ei gyfeirio’n ôl, ynghyd â gwybodaeth eglur am yr hyn y mae am i’r Cabinet ei ystyried. Os y cyfeirir y penderfyniad yn ôl at y Cabinet, bydd yn ystyried yr atgyfeiriad a’r rhesymau a gyflwynwyd i gefnogi’r atgyfeiriad yn y cyfarfod nesaf, sydd ar 23ain Ionawr 2024. Yn y cyfarfod hwnnw bydd disgwyl i’r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i argymhellion y Pwyllgor Craffu.

4.9 Bydd gan y Cabinet y dewis i newid neu ail-gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.

4.10 Os yw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau o’r farn na ddylid cyfeirio y penderfyniad yn ôl i’r Cabinet, yna gellir gweithredu’r penderfyniad gwreiddiol yn syth.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 ac Atodiad 1 i adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi o dan ddarpariaethau ac amserlenni Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 'galw i mewn' penderfyniad Cabinet.

8.2 Mae manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad i'w gweld yn Adran 8 o adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

8.3 Mae Adran 8 a hefyd atodiadau 3, 4, 5 a 6(a) i (i) yr adroddiad i'r Cabinet, dyddiedig 19 Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm) yn cynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ymateb y Cyngor i'r themâu allweddol a godwyd, ynghyd â'r ymatebion a dderbyniwyd gan wahanol randdeiliaid.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gweler Adran 10 adroddiad y Cabinet dyddiedig 19eg Rhagfyr 2023 (Atodiad B ynghlwm).

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae pwerau Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn:

- Adran 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac
- Adrannau 7.2.1 ac Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor